**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 01.12.25**

Hwn oedd cyfarfod cyntaf y Cyngor gyda mynediad o bell, gyda'r Cyng Reg Chapman ac hefyd rhai aelodau o'r cyhoedd yn mynychu o leoliadau o bell, a gwnaethpwyd hyn yn bosibl drwy brynu'r offer angenrheidiol gan bwyllgor Hen Llyfrgell a Sefydliad Harlech.

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Wendy Williams, Ceri Griffiths.

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), . James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Tegid John, Gordon Howie, Mark Lewis, Simon Turner, Giles Bentham, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 2 aelod o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom ag 1 yn yr ystafell ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Nid oedd gan Aelodau o'r cyhoedd gwestiynau I'w gofyn.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi cael prisiau ar gyfer offer newydd yn cae chwarae Brenin Sior a diolchodd i'r Cyng. Simon Turner a Mark Lewis am eu gwaith caled gyda'r holl baratoi ar gyfer y noson goleuo.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Tachwedd 3ydd 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL a nid oedd yn bresennol pan gafodd y mater gyda HAL ei drafod
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL a nid oedd yn bresennol pan gafodd y mater gyda HAL ei drafod
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL a nid oedd yn bresennol pan gafodd y mater gyda HAL ei drafod
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – adroddwyd bod toiledau cyhoeddus maes parcio Min y Don byth wedi ail agor yn dilyn y gwaith o uwchraddio a cafwyd wybod gan y Cyng. Gwynfor Owen bod hyn oherwydd asbestos, 'roedd wedi derbyn nifer o alwadau ffon ag e-byst yn ystod y dydd ynglyn ar llifogydd ar gwahanol ffyrdd yn yr ardal ag 'roedd wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn a wedi cael gwybod y byddant yn mynd allan i'r gwahanol lefydd i asesu y sefyllfa. 'Roedd wedi cael gwybod bydd ffordd o Bont Briwet draw am Benrhyndeudraeth yn cael ei chau ar y 18ed o'r mis hwn am 2 ddiwrnod.
Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen ei fod yn ymddiheuro ei fod yn y cyfarfod dros zoom ag ei fod yn gweld bod y sustem yn gweithio yn dda. Cafwyd wybod bod yr adroddiad CPR wedi dod allan a bod amryw o gyrff cyhoeddus yn cael eu beio a bod Cyngor Gwynedd yn derbyn yr holl awgrymiadau yn yr adroddiad. 'Roedd sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd heb gael ei gytuno eto, 'roedd wedi cwyno am y codiad yn cyfraniad y Cynghorau Cymuned i gadw y

toiledau cyhoeddus yn agored. Fe estynodd longyfarchiadau i drefnwyr y noson oleuo nos Sadwrn a bod y noson wedi bod yn lwyddiant mawr. ‘Roedd eisiau gwybod os oedd penderfyniad wedi cael ei wneud ynglyn ar golau fflachio a datganodd y Cadeirydd bod y mater ar yr agenda nes ymlaen. Diolchodd y Cyng. Simon Turner iddo am drefnu bod biniau mawr yn cael eu gosod yn maes parcio y castell ar gyfer y digwyddiad nos Sadwrn a bod amryw wedi gofyn pam bod rhai fel hyn ddim ar gael adeg tymor yr ymwelwyr. ‘Roedd yn mynd i gyfarfod ar sawl oedd yn gyfrifol am y murlun yn parc Bron y Graig, ‘roedd yn mynd i edrych i mewn pam bod arwydd am Harlech wedi cael ei dynnu i ffwrdd ar yr A487 yn Maentwrog.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £46,418.36 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £33,839.64 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**Nadolig 2025**

Cafwyd y datganiad canlynol gan y Cyng. Simon Turner a Mark Lewis ynglyn ar digwyddiadau nadolig - Cadarnhaodd y Cynghorwyr Mark Lewis a Simon Turner y cafwyd £3,800 o roddion tuag at oleuadau'r prif stryd. Yn ogystal, nodwch i gael derbyn rhodd o £520 ar 24 Tachwedd gan gronfa cymunedol Gwasanaethau Adfer Niwclear ar safle Trawsfynydd. ‘Roedd goleuo i fyny Harlech ar parêd Lanteri a’r agoriad noson hwyr yn lwyddiant mawr gyda mwy nag 500 o bobl wedi mynychu. Yn ogystal, rhoddwyd anrhegion gan Sion Corn i 135 o blant bach. Cytunodd y Cyngor i’r rhoddion siocledi sydd ar ol (o’r 166 a archebwyd) yn cael eu rhoi i Ysgol Gynradd Tanycastell. Hoffai’r Cyngor ddiolch i Gymdeithas Twristiaeth Harlech am dalu am y taflenni, posteri, a’r dynion prosiect fideo. Cydnabyddwyd Cadw hefyd am ganiatáu defnyddio maes parcio y Castell ac am gytuno y gellid prosiectio eira ar wal y Castell. Hefyd, dymunodd Mark a Simon ddiolch i Jim a Sheila Lees o Rock Ardudwy am eu rhodd hael tuag at oleuadau'r prif stryd, codi’r marchŵi, darparu’r system sain, a noddi’r act tribiwt i Tom Jones. Cytunodd y Cyngor y dylid archwilio opsiynau goleuo Nadolig pellach ar gyfer Ffordd A496 Isaf Harlech. Bydd Simon yn cysylltu â changen priffyrdd Cyngor Sir Gwynedd i sefydlu cost gosod Allbynnau Pŵer AC ar fwy o bostiau goleuadau stryd ar gyfer dathliadau Nadolig 2026. Cytunwyd bod y Gwifrau Goleuadau LED a osodwyd eleni yn braf ac, dan amod cyllideb neu roddion, dylid eu gosod mewn niferoedd mwy. Bu Daryl Edwards yn llwyddiant mawr fel Siôn Corn ac roedd cytundeb y byddai’r Cyngor yn ei ddefnyddio eto yn 2026. Mae e bellach wedi’i archebu ar gyfer dydd Sadwrn 28 Tachwedd 2026. Hoffai’r Cyngor ddiolch i Daryl am roi arian Nadolig i bob plentyn a ymwelodd â’i grotto’n bersonol. Nid oedd Daryl wedi gweinyddu unrhyw gyllid i’r Cyngor am eleni. Roedd yn mynnu cynnig y flwyddyn gyntaf am ddim. Rhoddwyd gwobrau am y dyluniadau lanternau cartref mwyaf creadigol ar y Harlech. Bydd Simon yn cysylltu â changen priffyrdd Cyngor Sir Gwynedd i sefydlu cost gosod Allbynnau Pŵer AC ar fwy o bosti goleuadau stryd ar gyfer dathliadau Nadolig 2026. Cytunwyd bod y Gwifrau Goleuadau LED a osodwyd eleni yn braf ac, dan amod cyllideb neu roddion, dylid eu gosod mewn niferoedd mwy. Bu Daryl Edwards yn llwyddiant mawr fel Siôn Corn ac roedd cytundeb y byddai’r Cyngor yn ei ddefnyddio eto yn 2026. Mae ef bellach wedi’i archebu ar gyfer dydd Sadwrn 28 Tachwedd 2026. Hoffai’r Cyngor ddiolch i Daryl am roi arian Nadolig i bob plentyn a ymwelodd â’i grotto’n bersonol. Nid oedd Daryl wedi gweinyddu unrhyw gyllid i’r Cyngor am eleni. Roedd yn mynnu cynnig y flwyddyn gyntaf am ddim. Rhoddwyd gwobrau am y dyluniadau lanternau cartref mwyaf creadigol ar y nos. Mae Simon bellach yn sicrhau bod y rhoddion hael gan fusnesau lleol yn cyrraedd y rhai sy'n ennill. Cydnabyddwyd y dylai taflenni a phosteri sy'n hysbysebu'r digwyddiad, yn ddelfrydol, fod wedi'u hargraffu yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn cael ei wneud yn 2026.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Tan y Castell yn datgan siom ar ran aelodau y Corff a staff yr Ysgol bod y poster oedd wedi cael ei argraffu yn uniaith saesneg ag er bod yr ysgol yn falch iawn o gael y cyfle i gael lunio y poster ‘roedd siomedigaeth fawr o weld wedyn fod y gymraeg wedi ei dynnu oddi ar y poster a defnyddwyd. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i hyrwyddo eu diwylliant gymraeg a mae'r hyn a ddigwyddodd i'r boster llwyddiannus yn dangos diffyg parch at hynny a tuag at gwaith caled y plentyn. Hefyd yn datgan yn ychwanegol i hyn daeth y Cynghorydd Cymuned yn ei ol ymhen amser i ofyn i'r ysgol ddosbarthu pamffledi yn hyrwyddo'r digwyddiad ag oherwydd bod y pamffledi i gyd yn uniaith saesneg a bod gan yr ysgol bolisi dwyieithog ac o ganlyniad bu'n rhaid gwrthod cais y Cynghorydd i ddosbarthu’r pamffledi. Siom eto, a sioc oedd ymateb y Cynghorydd wedi’w gais gael ei wrthod. ‘Roedd hefyd wedi derbyn e-bost gan Sian Roberts yn gyntaf yn llongyfarch y

Cyngor Cymuned am ddigwyddiad ardderchog ond ar yr un pryd yn datgan siom bod y taflenni mewn uniaith saesneg ag yn gobeithio y bydd hyn ddim yn digwydd eto. Wedi derbyn e-bost gan trefnwyr y ffair grefftau yn y dref yn llongyfarch y Cyngor Cymuned ar lwyddiant y digwyddian ag hefyd yn datgan bod y crefftwyr I gyd wedi cytuno erbyn hyn I agor y ffair y flwyddyn nesa tan 5.00 o'r gloch ond eu bod yn datgan siom bod y taflenni oedd yn hyrwyddo y digwyddiad I gyd mewn uniaith saesneg a bod taflenni y ffair grefftau I gyd yn ddwy ieithog. Cafwyd wybod gan un Cynghorydd bod 4 cwyn wedi ei dderbyn ganddo ynglyn ar taflenni yn uniaith saesneg.
Cytunwyd i wirio a all y Cyngor Cymuned dderbyn rhoddion a dywedodd y Clerc y byddai'n cysylltu â'r Archwilydd Mewnol i ofyn y cwestiwn hwn.

**Llwybr Natur Bron y Graig**

Cafwyd wybod gan y Cyng. James Maxwell ei fod wedi derbyn adroddiad o archwiliad y safle uchod gan yr Ymddiredolaeth Coedwigaeth ag 'roedd y Clerc wedi anfon yr adroddiad hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Cytunodd pawb i dderbyn yr adroddiad hwn. Hefyd cytunwyd bod y Cyng. Reg Chapman a James Maxwell yn creu manyleb o'r gwaith sydd ei angen ei wneud ar y safle er mwyn i'r Clerc ei anfon i wahanol gontractwyr yn yr ardal yn gofyn am brisiau i gario allan y gwaith.

**Arwyddion Fflachio**

Cafwyd wybod byddai y Cyngor yn gorfod gwario £3,500 i archebu un o'r uchod a wedyn £1,500 i'w osod. Ar ol trafodaeth cytunwyd byddai yn well cael croesfan yn y lleoliad hwn a cytunwyd bod yr Aelodau yn anfon llythyr o gefnogaeth am hyn at y Cyng. Annwen Hughes.

**Ardal Ni – Cynllun Strategol**

Adroddodd y Cyng. Martin Hughes bod angen anfon e-bost i Gynghorwyr yn gofyn beth oeddynt eisiau ei weld yn digwydd gyda'r uchod a mynd ar atebion i gyfarfod nesa Fforwm Cynghorau Ardudwy.

**Y Las Ynys Fawr**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod yn mynd i gysylltu gyda'r Cyfreithiwr wythnos yma a bod ddim byd arall i'w drafod ynglyn ar mater hwn ar hyn o bryd.

**Gwefan y Cyngor**

Adroddodd y Cyng. James Maxwell ei fod wedi cael cyfarfod gyda Mr. Owen Brown ynglyn ar uchod a bod y wefan newydd nawr yn fyw. Cytunwyd gwahodd Mr. Brown i gyfarfod mis Chwefror o'r Cyngor.

**HAL - CIC**

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglyn ar sefyllfa diweddaraf i wneud gyda HAL – Yn dilyn fy adroddiad i gyfarfod Cyngor Cymuned Harlech ym mis Tachwedd 2025, rwyf wedi cael deialog pellach gyda Ian Williams o Lywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn cofio bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig talu costau cyfreithiol y Cyngor Cymuned i'n galluogi i gael Teitl Clir ar bob agwedd o'r Safle a thalu'r costau cyfreithiol ar gyfer sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol, a gaiff y Cyngor hwn ei berchnogi'n llwyr. Yn ogystal, byddai'r costau a ganlyn wrth negodi gyda unrhyw ddatblygwr hefyd yn cael eu talu. Mae wedi gofyn imi ddarparu cofnod o gefnogaeth y Cyngor hwn i'r prosiect gwesty {pleidlais ffurfiol}. Mae cryfder ein cefnogaeth yn rhan bwysig o roi hyder i wahanol gynghorau Llywodraeth sydd am gael sicrwydd bod y prosiect hwn wedi cael ei gefnogi'n llwyr gan ein cymuned. Os yw'r datblygiad hwn yn llwyddiannus, bydd y budd economaidd a chymdeithasol i'r gymuned gyfan yn darparu gyrchfan economaidd i Harlech sydd wedi bod ei hangen yn fawr i roi swyddi a chyfleoedd gyrfa i bobl leol. Yr wyf yn ystyried bod hwn yn gyfle gwych a byddwn yn eich annog i roi eich cefnogaeth lawn iddo. Rwyf yn manylu isod ar y meysydd cyfreithiol y bydd y cynnig ariannu yn eu cwmpasu;

**Cwmpas y Gwaith Angenrheidiol**

Prif nod yw hwyluso datblygu gwesty newydd, sydd yn hanfodol i nodau strategol twristiaeth ardal Harlech. Bydd y gwasanaethau cyfreithiol sydd eu hangen yn canolbwyntio ar dri phrif bilar:

1. Glanhau Teitl a Chydosod Tir: Datrys cymhlethdodau perchnogaeth presennol a darparu teitl glân ac y gellir ei farchnata ar gyfer datblygwr gwesty'r dyfodol.
2. Cydymffurfiaeth a Sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC): Sicrhau sefydlu CIC newydd yn llwyddiannus ac yn gyfreithlon gan y Cyngor Cymuned.
3. Negodi Datblygwr: Drafftio a negodi'r cytundebau cyfreithiol rhwng y CIC newydd ei ffurfio a'r datblygwr posibl.

**Cymhlethdodau Safle a Perchnogaeth**
Mae'r trothwy datblygu arfaethedig, sy'n cynnwys y posibiliad o ddefnyddio rhan o'r tir ar gyfer prosiect 'Harlech Link', yn cynnwys pedwar plot gwahanol sydd ar hyn o bryd dan wahanol strwythurau perchnogaeth:
· **Safle Cwrt Tennis**: Ar hyn o bryd o dan berchnogaeth Cyngor Cymunedol Harlech (CCH).
· **Ystafell y Band**: Mae'r strwythur yn eiddo'r Band, ond mae'r tir sylfaenol yn eiddo i CCH.
· **Safle Pwll Nofio a'r Ffordd Mynediad**: Perchnogol gan Fwrdd y Pwll Nofio (HAL), cwmni moesegol cudd nad yw'n gwneud elw.
· **Cae Chwarae: Safle penodol Brenin Sior V**, mewn perchnogaeth CCH.
**Cyfyngiadau Cyfreithiol Penodol a Datrysiadau**
**1. Cytundeb Safle Pwll Nofio:** Mae'r safle yn destun cytundeb cyfyngol a osodwyd gan Gyngor Gwynedd (GC) pan roddynt nhw'r tir i HAL. Mae'r cytundeb hwn yn nodi bod gorchwilio ar bris y gwerthiant os caiff y safle ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas heblaw am bwll.
**2. Tynnu'r Cytundeb:** Mewn cyfarfod diweddar gyda GC (a gynrychiolwyd gan eu Arweinydd a'r Prif Swyddog perthnasol), nodwyd y gellid tynnu'r cytundeb hwn gan amlaf, o dan amod y bydd y cynigion datblygu gwesty yn cynnwys cyfleuster hamdden hygyrch i bobl leol. Mae arnom angen cymorth i ffurfio'r cytundeb hwn yn ffurfiol.
**3. Cae Chwarae Brenins Sior V:** Efallai y bydd angen ailstrwythuro y tir hwn wrth i'r cynlluniau ddatblygu. Tra bod CCH yn edrych yn annibynnol ar sicrhau cyllid i wella'r tiroedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, rhaid i unrhyw newidiadau gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â statws safle Brenin Sior V.
**Model Cwmni Diddordeb Cymunedol (CIC)**
Y brif strategaeth sy'n cael ei dilyn gan y Cyngor Cymuned yw defnyddio **Cwmni Diddordeb Cymunedol (CIC)** fel y cyrff cyfreithiol i reoli trosglwyddiad tir a sicrhau manteision cymunedol hirdymor.
· Bydd swyddogaeth y CIC yn darparu teitl clir i ddatblygwr y gwesty.
· Yn allweddol, **ni fydd y CIC yn ceisio derbyniad cyfalaf** ar gyfer trosglwyddiad y safle.
• Yn lle hynny, mae'r CIC yn ceisio **incwm rhesymol a chyson** sy'n gysylltiedig ag gweithrediad y gwesty, a gaiff ei ddefnyddio i fanteisio'r gymuned leol.
• Diffinnir rôl y CIC fel darparu **drosolwg ar y datblygiad a'i fwriad i fanteisio'r gymuned,** yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i elw ariannol uniongyrchol o werthu'r tir ei hun.
**Cyflwynwyd y tri cynnig isod i'r Aelodau:-**
**Cefnogi mewn egwyddor ddatblygu y gwesty –** Pleidleisiodd y Cynghorwyr Christopher Braithwaite, James Maxwell, Edwina Evans, Mark Lewis, Gordon Howie o blaid, ac fe wnaeth y Cyng. Giles Bentham atal ei bleidlais.
**Cefnogi mewn egwyddor sefydlu CIC newydd -** Pleidleisiodd y Cynghorwyr Christopher Braithwaite, James Maxwell, Edwina Evans, Mark Lewis, Gordon Howie o blaid, a phleidleisiodd y Cyng. Giles Bentham yn erbyn.
**Cefnogi mewn egwyddor adroddiad Llywodraeth Cymru** - Pleidleisiodd Cynghorwyr Christopher Braithwaite, James Maxwell, Edwina Evans, Mark Lewis, Gordon Howie o blaid, ac fe wnaeth y Cyng. Giles Bentham atal ei bleidlais.

**Tir Penygraig**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn yr adroddiad archwiliad a gafodd ei gario allan gan gwmni Groundsolve Ltd ag yn datgan ganddynt bod y tir yn gwbwl ddiogel. Cytunwyd bod y Clerc yn anfon copi o'r adroddiad i'r Cyfreithiwr. Hefyd datganodd y Cyng. James Maxwell y byddai yn cyfarfod a Mr. Rowland Jones ynghyd a cynrychiolwyr o Addysg Dysgu Oedolion ar y safle wythnos nesa.

**Grant Cyngor Gwynedd**
Adroddodd y Cyng. Reg Chapman bod grant o £7,500 gan Gyngor Gwynedd wedi cael ei dderbyn i gario allan gwaith mewn gwahanol leoliadau yn y dref a bod y gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2026.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ddim wedi dod I law ers y cyfarfod diwethaf

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £30,579.14 yn y cyfrif rhedegol a £115,248.36 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

Mr. G. J. Williams - £68.00 - torri gwair cae peldroed
Un Llais Cymru - £84.00 - cwrs hyfforddiant Cyng. James Maxwell a Martin Hughes
Groundsolve Ltd - £2,700.00 - archwiliad o tir Penygraig
Mrs Annwen Hughes - £155.88 – trwydded zoom
Mr. Simon Turner - £253.17 - goleuadau nadolig

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Reg Chapman a wnaeth y Cyng. James Maxwell gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

Clwb Badminton Ieuenctid - £1,560.00 (allan o gronfa ymgysylltu cymunedol)
Cytunwyd dylai yr anfonebau gael eu anfon yn uniongyrchol i'r Cyngor i'w talu gan nad oedd hwn yn grant i sefydliad.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Cyllid a Thollad - £250.27 – ad-daliad TAW

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Blachere Illuminations - £354.24 - goleuadau nadolig
Simon Turner - £499.00 – nwyddau i gorymdaith nadolig
Simon Turner - £487.93 – goleuadau nadolig
Catrin Soraya Williams – £165.00 - gwasanaeth cyfieithu

**Cyfrifon Rheoli a Chyllideb**

Fe gafodd cyfrifon diwedd Hydref 2025 eu rhannu ag 'roedd pawb yn eu derbyn. Byddai yr is-bwyllgor cyllid yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau ynglyn a'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn nesa.

**GOHEBIAETH**

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr ynghyd ag atodiadau gan yr Adran uchod ynglyn ag Ymgynghoriad wrth i'r Cyngor ystyried gwneud gorchymyn parcio cwmpasog newydd a gwneud newidiadau i strwythur ffioedd meusydd parcio talu ac arddangos arhosiad hir (band 2 yn unig) a gwneud i ffwrdd hefo talu £1.55 am barcio am 2 awr a bod yn rhaid talu am o leiaf 4 awr a hynny yn £3.85. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn hwn.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bydd y ffordd a adwaenir fel Pentre'r Efail yn cael ei chau o bwynt ger yr eiddo a adwaenir fel Gerlan draw at yr eiddo a adwaenir fel Bennar ar y 12ed o Ionawr 2026. Mae angen y gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith ar ran Dwr Cymru.

**Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn ar diweddariad ar y broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri ag yn gofyn a fyddai modd i holiadur anffurfiol gael ei gwblhau gan trigolion y Parc er mwyn iddynt cael clywed barn y bobl lleol ar faterion polisi cynlllunio allweddol yn yr ardal. Mae dyddiad cau ar gyfer cwblhau yr holiadur ar y 12ed o Ragfyr.

**Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod cyffrediniol blynyddol Un Llais Cymru yn cael ei gynnal yn rhithiol ar yr 21ain o Ionawr 2026 a bod yna wahoddiad i un Cynghorydd yn unig i fynychu y cyfarfod. Maen’t hefyd yn gofyn am enw y sawl fydd yn mynychu gyda enw eilydd erbyn y 18ed o Ragfyr. Cytunodd y Cyng. Martin Hughes fynychu y cyfarfod hwn ar ran y Cyngor a bod y Cyng. Christopher Braithwaite fel enw wrth gefn.

**Mr. Joe Patton**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn diolch i’r Cyngor am agor cyfrif banc i gae chwarae Brenin Sior ag yn datgan bod hyn wedi ei alluogi i geisio am grant o £1,500 gan Gynllun Gerddi Cenedlaethol ag hefyd yn datgan ei fod wedi cael cadarnhad bod ei gais wedi ei anfon ymlaen i’r panel a bydd yn cael gwybod yn mis Ebrill os bydd wedi bod yn llwyddianus i gael y grant. Hefyd dywedodd Mr Patton y bydd Cadw Cymru’n Daclus yn cynnal asesiad dilynol yn gwanwyn 2026 fel rhan o’u monitro parhaus o barciau a enillodd y dynodiad Baner Werdd, gan ofyn i’r Cyngor Cymuned gadarnhau’r canlynol fel materion a godwyd o’u hymweliad asesu 2025:
A yw’r trydydd dyfynbris a ddisgwylid wedi ei dderbyn er mwyn i’r Cyngor Cymuned ystyried ariannu darpariaeth o offer chwarae i ddefnyddwyr anabl? Ymateb i hyn oedd “yndi”
A fydd ariannu ar gyfer giât a llwybr sydd yn hygyrch gan gadeiriau olwyn i’r ardal eistedd ger cadair y storiwr yn cael ei gynnwys yn gyllideb y Cyngor Cymuned 2026/27? Ymateb i hyn oedd “yndi”
Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu â Mr Patton ynghylch yr uchod.

**Ms Emma Howie**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor tuag at redeg clwb badminton newydd yn y dref. Cytunwyd cyfranu £1,560 a bod hyn yn dod allan o gronfa ymgysylltu cymunedol. Hefyd eisiau datgan bod croeso iddi anfon cais i mewn y flwyddyn nesa a byddai hwn yn cael ei drafod o dan cyfraniadau.

**Mynediad o Bell**

Sylwyd ar ddiwedd y cyfarfod cyntaf hwn gyda mynediad o bell, fod y Cynghorwyr a’r aelodau o’r cyhoedd yn ystyried ei fod wedi gweithio’n dda.

**ARWYDDWYD............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 870